

Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 25 Gorffennaf 2023 yng Nghaffi Beca am 7.30pm

Yn bresennol: Tudur Lewis (Cadeirydd), Anthony Jenner, Anthony Eynon, Dennis Jones, Rebecca Jaimangl-Jones, Julian Williams, Cyng Dorian Phillips trwy Zoom, Janice Morgan (Clerc)

Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol. Cynhaliwyd y cyfarfod yn Gymraeg a darparwyd cyfieithiad Saesneg i aelodau'r cyhoedd.

- 1. Ymddiheuriadau:** Russell Davies, Ffion John, Michael Fussell
- 2. Datganiadau o ddiddordeb:** DJ, JW a DP ynglyn ag Adran 8 Cynllunio (iii)
- 3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf 06/06/2023:**
 - Ac eithrio un newid yn adran 5 ynglyn â chyngor i ddal nôl ar y llwybrau troed yn hytrach na stopio, derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin 2023 yn gywir.

Materion yn codi o'r cofnodion:

- Bwrdd gwybodaeth Meini Gŵyr – wedi'i osod yn ei le gan TL ac AJ
- Safle picnic Ynys Fach – arwydd nawr yn ei le ac mae'r Cyngor Sir wedi gwneud y gwaith tacluso sy'n cynnwys gosod bwrdd picnic sefydlog. Mae'r bin hefyd wedi cael ei symud dros dro. Unrhyw broblemau i'w hadrodd i'r Cyng DP
- Adran 6 Adroddiad/Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
Cam gweithredu: JM i e-bostio drafft i bawb o fewn yr wythnosau nesaf
- Gwefan – mae'r gwaith datblygu yn parhau. Mae Jamie King yn gobeithio anfon drafft drwodd o fewn yr wythnosau nesaf. Gobeithir cael tudalen hanes lleol ar y wefan lle gwahoddir y gymuned i rannu eu gwybodaeth, lluniau ayyb
- Lansio Apêl Cerflun Twm Carnabwth – roedd y lansiad a gynhaliwyd yng Nghaffi Beca Nos Lun 17eg Gorffennaf yn ddigwyddiad llwyddiannus dros ben gyda chefnogaeth dda a chafodd sylw da yn y cyfryngau.
- Cytundeb cyflogaeth y Clerc – wedi ei gymeradwyo
- Cynllun Hyfforddi – ar yr agenda, gweler eitem 9
- Rheolau Sefydlog Diwygiedig:
Cam gweithredu: JM i e-bostio'r Rheolau Sefydlog newydd i bawb eu darllen a'u cymeradwyo
- Cofeb Terfysgoedd Beca – mae RD wedi siarad â James Morris ynghylch darn bach o dir i gerbydau sy'n ymweld dynnu i mewn gyferbyn â safle'r gofeb. Bydd JMorris yn trafod gyda'i deulu

4. Cydnabyddiaeth Ariannol

- Dywedodd JM y bydd y lwfans o £150 yn cael ei dalu i bob Cynghorydd ar gyfer 2022/23 pro rata yn dilyn y cyfarfod hwn.
- Cytunwyd i setlo lwfans 2023/24 a fydd yn £156 fis Ionawr nesaf 2024 fel y gellir gwneud taliadau o fewn y flwyddyn ariannol.

5. Cais Grant Cymunedau Cynaliadwy

- Derbyniwyd e-bost gan Jayne Pritchard, Cydlynnydd y Gronfa Cymunedau Cynaliadwy ar 11 Gorffennaf 2023 yn cadarnhau bod ein cais wedi bod yn

llwyddiannus. Nid yw'r e-bost hwn yn llythyr i fwrw ymlaen ac mae ein dyfarniad 'yn amodol ar wiriadau diwydrwydd dyladwy boddhaol'. Mae'r cytundeb grant yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd a bydd yn cael ei anfon cyn gynted.

- Canmolodd y Cyng DP Julie Sweet a JM am lwyddo i gael y grant a bod cymaint o waith wedi'i wneud i ysgrifennu'r cais.
- Cytunwyd i ffurfio is-grŵp i reoli'r prosiect; yr aelodau i gynnwys: AJ, RJJ, Cyng DP, Julie Sweet, JM, cynrychiolwyr Ramblers Cymru Zoe Richards ac Oliver Wicks a Jason Lawday i ddarparu cyngor cyfreithiol a'r ffordd orau ymlaen. Yr is-grŵp i gynnal ei gyfarfod cyntaf cyn gynted ag y daw'r llythyr grant swyddogol a'r contract drwodd.

Gweithredu: JM i anfon e-bost at aelodau'r is-grŵp yn eu gwahodd i fynychu cyfarfod cychwynnol yn fuan ar ôl derbyn y llythyr grant swyddogol

- Dywedodd y Cyng DP fod y Cyngor Sir yn edrych i mewn i sefydlu taliadau fesul cam gan na fydd cyllidebau cynghorau cymuned yn gallu gwneud yr holl daliadau ymlaen llaw.
- Cadarnhawyd bod y contractwr, yn dilyn proses dendro, wedi'i benodi
- Bydd angen i'r is-grŵp ddrafftio cylch gorchwyl a bydd angen iddo hefyd ystyried yr holl agweddau iechyd a diogelwch, gan gynnwys asesiadau risg.
- Awgrymodd Julie Sweet (aelod o'r cyhoedd oedd yn bresennol) y byddai agweddau o'r prosiect hwn yn briodol i'w cynnwys yn y cynllun gweithredu bioamrywiaeth e.e. mae'r ardal sy'n cynnwys llwybrau troed y prosiect yn cael ei hystyried yn goedwig law dymherus ac mae ganddi ei hinsawdd unigryw ei hun; cynnwys blychau adar ar hyd y llwybrau troed
- Ceisiadau dargyfeirio llwybrau troed – mae Jason Lawday wedi nodi'r holl geisiadau dargyfeirio a bydd angen eu cymryd i ystyriaeth. Mae'r rhain fel arfer yn cymryd 3 i 4 mis i'w prosesu os nad oes gwrthwynebiadau.
- Mynegodd y Cyng DP bryder a godwyd gan Jason Lawday ynghylch gwirfoddolwyr heb eu hyfforddi'n briodol mewn perthynas â chlirio llwybrau troed
- **Cam gweithredu: Cyng DP i anfon yr e-bost a dolen at y canllawiau hyfforddi at JM**

6. Gohebiaeth

- Derbyniwyd llythyr oddi wrth Ganolfan Gymunedol Ffynnonwen yn gofyn am fwy o gymorth ariannol oherwydd costau rhedeg uwch. Cynigiodd DJ y swm o £700 ac eiliwyd gan AJ.

7. Diweddariad Cyllid ac Arwyddio Sieciau

- Rhoddodd JM grynodedb o'r cyllid presennol: Cyfrif Cyfredol - £10,295.45; Cyfrif Cynilo - £739.47
- Derbyniwyd £310.19 gan HMRC ar gyfer 22/23 o hawliad TAW
- Mae'r Archwilydd Mewnol Rosemarie Davies wedi cynnal archwiliad mewnol o gyfrifon 2022/23 ac wedi cyflwyno adroddiad cynhwysfawr, yn cadarnhau cywirdeb y cyfrifon a bod yr holl weithdrefnau wedi cael eu dilyn yn gywir. Fodd bynnag, gwnaed argymhelliad i gynnwys materion iechyd meddwl fel rhan o fusnes y cyngor cymuned. Bydd hyn yn cael ei ychwanegu at yr agenda fel eitem sefydlog.
- Bydd Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd yn destun archwiliad llawn eleni (o gyfrifon 2022/23), felly bydd angen darparu mwy o wybodaeth. Mae JM wrthi'n paratoi'r holl ddogfennaeth, i'w lanlwytho i borth diogel erbyn 7 Awst.
- Yn unol â gofynion yr archwiliad blynyddol, mae hysbysiad i archwilio cyfrifon etholwyr wedi ei arddangos ar hysbysfyrdau Siop Glandy Cross. Canolfan Gymunedol Ffynnonwen ac ar dudalen Facebook CC Cilymaenllwyd, o 17/7/23 – 11/8/23.

- Sieciau i'w harwyddo:
 - Llogi ystafell yng Nghaffi Beca - £25
 - Un Llais Cymru ar gyfer hyfforddiant: JM – hyfforddiant Cod Ymddygiad - £38.00
 - Clipiau ar gyfer arwydd Meini Gŵyr, yn daladwy i JM - £27.83
 - Rosemarie Davies, Archwiliad Mewnol 2022/23 - £72.00
 - Canolfan Gymunedol Ffynnonwen - £700
 - Cyflog y Clerc am y chwarter cyntaf (Ebrill – Mehefin) - £349.70
 - Taliadau lwfans aelodau 2022/23 – AJ, AE, TL, DJ, RD, VW - £150 yr un; RJJ - £104 (pro rata); Geraint James - £101 (pro rata). Cyfanswm: £1,105

8. Cynllunio

- Cyflwynwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ers y cyfarfod diwethaf:
 - PL/06297 – 20/7/23: dileu amod 6 i ganiatáu cadw'r strwythur pren, Parc-yr-Odyn, Hebron, Hendy-gwyn ar Daf – dan ymgynghoriad 10/8/23
 - PL/05439 – 27/6/23: caniatâd cynllunio llawn, Cross Inn, Efailwen – codi annedd a gwaith cysylltiedig
 - PL/06080 – 27/6/23: codi adeilad amaethyddol ar gyfer storio offer amaethyddol yn dilyn gwerthu ysgubor deuluol, cae ar bwys Llwynceirios, Hebron.
- Codwyd pryderon ynghylch y cais cynllunio PL/06080 uchod oherwydd dywedwyd bod yr adeilad wedi'i godi cyn i'r cais cynllunio gael ei gymeradwyo, a bod cloddiau wedi'u tynnu. Gwnaed datganiadau o ddiddordeb gan DJ, JW a DP ac felly fe wnaethon nhw ymatal rhag cymryd rhan yn y drafodaeth.
- Cytunwyd i gyflwyno llythyr yn mynegi pryder ynghylch codi'r adeilad cyn derbyn caniatâd cynllunio llawn yn hytrach na gwrthwynebu'r cais cynllunio ei hun.
Cam gweithredu: JM i ddrafftio ymateb yn mynegi pryder a bydd yn ei rannu gyda phawb cyn ei gyflwyno
- **Cam gweithredu: JM i ymchwilio gwneud cais am gyfraniad Adran 106 tuag at gerflun Twm Carnabwth**

9. Cynllun Hyfforddi

- Mae amserlen hyfforddi Gorffennaf/Awst wedi'i e-bostio at bawb. Mae FJ wedi mynegi diddordeb i gofrestru ar y sesiwn hyfforddi Cod Ymddygiad ar 22/8/23
Cam gweithredu: Pawb i anfon e-bost at JM os oes ganddyn nhw ddiddordeb mewn mynychu unrhyw fodiwlau hyfforddi
- Mynychodd AE yr hyfforddiant Cod Ymddygiad ar-lein ar 12/6/23
- Anfonodd JM y ffurflen Cynllun Dysgu a Datblygu (ymarfer dadansoddi anghenion hyfforddi) i bawb i'w chwblhau fel cam cyntaf llunio cynllun hyfforddi 4 blynedd. Derbyniwyd un hyd yn hyn
Cam gweithredu: Pawb i gwblhau'r ffurflen Cynllun Dysgu a Datblygu a'i dychwelyd i JM erbyn y cyfarfod nesaf

10. Diweddariad y Cynghorydd Sir

- Tynnodd y Cyng DB sylw at gynigion y Cyngor Sir i gyflwyno terfynau cyflymder 20 a 30 mya ar hyd ffyrdd ledled y sir. Daw'r cyfnod gwrthwynebu i bob cynnig i ben ar 28 Gorffennaf 2023. Mae'n debygol y bydd yr holl derfynau cyflymder sydd wedi cael eu cynnig yn y gymuned yn mynd yn eu blaenau ac eithrio'r terfyn cyflymder i lawr i Gaer Bedw.
- **Cam gweithredu: JM i aildosbarthu'r e-bost i bawb a bydd yn drafftio ymateb, i'w gyflwyno erbyn 28 Gorffennaf. Gall cynghorwyr hefyd gyflwyno sylwadau ar sail unigol**
- Cais wedi ei wneud i'r Cyngor dorri'r porfa o Flaenafon hyd at garreg goffa Beca gan fod plant yn cerdded i'r ysgol bob dydd

- Derbyniwyd llawer o gwynion ynglŷn â baw cŵn o amgylch Feidr Siôn, Pantycaws, Nebo. Mae'r Cyng DP yn aelod o grŵp gorchwyl a gorffen a dywedodd fod yn rhaid i gŵn fod ar dennyn ar gae chwarae. Mae angen adrodd cwynion naill ai i'r Cyngor Sir neu i'r Cyng DP
- Wynebau ffyrdd – yr unig ddarn sy'n cael ei atgyweirio ar hyn o bryd yw'r darn o'r ffordd fawr o Gaer Bedw hyd at Gaffi Beca.
- Y Cardi Bach – mae'r arolwg ecoleg wedi'i gynnal; cynhelir arolwg peirianeg sifil nesaf a thrafodaethau pellach gyda thirfeddianwyr. Mae rhai tirfeddianwyr yn gwrthwynebu; gallai dargyfeiriadau i lwybrau troed fod yn llwybrau amgen

11. Unrhyw Fater Arall

- Adroddwyd bod tyllau yn y ffordd yn digwydd dro ar ôl tro a bod safon y gwaith atgyweirio yn wael. Mae'r darn rhwng Efailwen a Llanglydwen yn arbennig o wael a hefyd o Ffynnonwen i Efailwen (50 llath o'r sgwâr)
Cam gweithredu: Pawb i gysylltu â'r Cyng DP i roi gwybod am unrhyw dyllau
- Dymunwyd yn dda i'r Cyng DP a fydd yn derbyn triniaeth ysbyty yr wythnos nesaf

12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

- Nos Fawrth 26 Medi 2023 am 7.30pm yng Nghaffi Beca.

Terfynwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd

Arwyddwyd

Cadeirydd:



Dyddiad: 26/09/2023